

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl hwn yn archwilio Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (cyfraith yr UE) drwy ganolbwyntio ar themâu gwahanol y gyfraith sy'n berthnasol ac o ddiddordeb i fyfyrwyr sy'n dilyn gradd yn y gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Y bwriad yw addysgu'r pynciau gwahanol o safbwynt Ewropeaidd, yn hytrach nag o safbwynt y DU. Drwy wneud hyn, bydd y myfyrwyr yn meithrin dealltwriaeth well o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd, gan gyfeirio at system gyfreithiol y DU lle y bo disgwyl ac angen iddynt wneud hynny. Bydd trefnu'r addysgu o amgylch themâu yn golygu bod modd osgoi'r dull traddodiadol o addysgu cyfraith yr Undeb Ewropeaidd. Caiff egwyddorion megis effaith uniongyrchol a sybsidiaredd eu haddysgu mewn cyd-destun amserol er mwyn ennyn diddordeb y myfyrwyr mewn trafodaeth fywiog o'r cychwyn cyntaf. Bydd y myfyrwyr hefyd yn meithrin dealltwriaeth o'r ffordd y mae llysoedd yr Undeb Ewropeaidd yn gweithio drwy ddilyn llinyn astudiaeth achos ochr yn ochr ag astudio cynnwys yr undeb.

Yn ogystal â dysgu am yr agweddau gwahanol ar gyfraith yr UE, byddant hefyd yn cael cyfle i gymhwyso'r gyfraith a'i gwerthuso'n feiriadol, a hynny gan gyfeirio at system gyfreithiol y DU ac i'r gwrthwyneb.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- Gwybodaeth am gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a phrofiad o'i haddysgu, ynghyd â phrofiad o ymarfer mewn maes sy'n cynnwys elfennau sylweddol o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd.
- Y gallu i drosglwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth yn effeithiol i fyfyrwyr drwy arfer addysgu effeithiol
- Y gallu i hwyluso a datblygu dysgu'r myfyrwyr drwy eu hymchwil annibynnol eu hunain
- Ymwybyddiaeth o ddatblygiadau diweddar yn un neu fwy o themâu pwnc y modiwl.
- Y gallu i ddangos dealltwriaeth a gwybodaeth gyfredol ynghylch yr amgylchedd cyfreithiol sy'n newid a'r newidiadau ym maes addysgu'r gyfraith.
- Tystiolaeth o ddull systematig o addysgu sgiliau cyfreithiol academiaidd sylfaenol a rhesymu cyfreithiol sy'n briodol i astudiaethau lefel 3.
- Dangos hanes o ddatblygiad personol ac arfer myfyriol ac ymrwymiad parhaus iddynt, ynghyd â'r gallu a'r parodrwydd i fentora/cefnogi myfyrwyr wrth Gynllunio Datblygiad Personol.
- tystiolaeth o'r gallu i roi adborth ysgrifenedig priodol ac wedi'i deilwra ar aseiniadau ysgrifenedig, gan gyfeirio at gynnwys a sgiliau er mwyn helpu myfyrwyr unigol i ddatblygu drwy eu rhaglen astudio yn unol â safonau cytunedig y Brifysgol.
- Y gallu i ddangos sgiliau rheoli llwyth gwaith effeithiol a chwblhau gwaith o fewn terfynau amser y brifysgol
- Y gallu i ddefnyddio technoleg ar-lein a thiwтора myfyrwyr gan ddefnyddio cyfuniad o diwtoriau wyneb yn wyneb ac ar-lein a fforymau.
- Y gallu i diwtora amrywiaeth eang o fyfyrwyr â galluedd, dulliau dysgu, nodau astudio a phrofiadau amrywiol.
- Tystiolaeth o'r gallu i gydweithio â thiwtorïaid eraill er mwyn darparu hyfforddiant effeithiol ar draws nifer o grwpiau tiwtor, gan gynnwys hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb

Manylion y modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	2
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	7
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	6